Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion (2017/18)
Canllaw Athrawon



2017 yw'r 12fed penblwydd **Ymchwiliad Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion!** Rydyn ni'n croesawu rhai ysgolion newydd i'r ymchwiliad ac yn parhau i weithio gyda'r rhai sydd wedi bod gyda ni ers y dechrau.

Rydyn ni'n dal i gydweithio ag **Ymddiriedolaeth Edina** sy'n noddi'r potiau a'r bylbiau ac yn ehangu cyrhaeddiad y project! Eleni, bydd 174 o ysgolion yn cymryd rhan! 83 yng Nghymru, 38 yn yr Alban, 38 yn Lloegr a 15 yng Ngogledd Iwerddon.

Gallwch chi ddilyn Athro'r Ardd ar Twitter neu weld y newyddion diweddaraf ar y blog blodau: http://www.amgueddfacymru.ac.uk/bylbiau-gwanwyn/

E-bost: scan@amgueddfacymru.ac.uk

Twitter: www.twitter.com/professor_plant

Cynllun Tymor: 2017/18

Dyma rai o ddyddiau allweddol y project. Mae adnoddau defnyddiol a ffeiliau PowerPoint i'w defnyddio yn y dosbarth ar gyfer pob cam. Ewch i: http://www.amgueddfacymru.ac.uk/bylbiau-gwanwyn/

Dyddiad	Gweithgaredd
Wythnos 25 Medi	**Camau cyntaf Ysgolion yr Alban:** • cyflwyno'r project i'r disgyblion • paratoi i blannu • enwau defnyddwyr a chyfrineiriau
Wythnos 9 Hydref	**Camau cyntaf Ysgolion Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:** • cyflwyno'r project i'r disgyblion • paratoi i blannu • enwau defnyddwyr a chyfrineiriau
Erbyn 13 Hydref	Dosbarthu bylbiau i **bob ysgol**.
20 Hydref	Diwrnod plannu: Ysgolion Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. (Cofiwch dynnu lluniau ar gyfer y gystadleuaeth!)
27 Hydref	Diwrnod plannu: Ysgolion yr Alban (Cofiwch dynnu lluniau ar gyfer y gystadleuaeth!)
20 Hydref	Dyddiad cau Cymru i anfon ceisiadau ar gyfer Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Diwrnod Plannu. Caiff enillwyr Cymru eu cyhoeddi ar 6 Tachwedd. Caiff dyddiadau cau yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon eu trefnu gan Ymddiriedolaeth Edina.
6 Tachwedd	Pob ysgol i ddechrau cadw cofnodion tywydd a pharhau tan 29 Mawrth (ac eithrio dyddiau cau'r ysgol).
Ionawr – Mawrth	Ionawr – Mawrth: annog disgyblion i ymweld â'r bylbiau'n rheolaidd a chofnodi dyddiadau blodeuo a thaldra eu planhigion. Cyfle i ennill taith gweithgaredd natur. Dyddiad cau'r gystadleuaeth: 29 Mawrth.
29 Mawrth	**Dyddiad cau ar gyfer anfon pob cofnod blodau unigol a chofnodion tywydd ysgolion i'r wefan.** Bydd hyn yn sicrhau y bydd pob disgybl yn derbyn **Tystysgrif Gwyddonydd Gwych** a phensil. Os ydych chi'n cyflwyno eich data i gyd bydd cyfle i ennill gwobr i'r dosbarth.
23 Ebrill	Cyhoeddi enillwyr cystadleuaeth a'u postio ar y wefan. **Dyddiad cau ar gyfer gyflwyno cais i barhau flwyddyn nesaf.**
21 Mai	Dosbarthu tystysgrifau, pensiliau, eginblanhigion ac adroddiad diwedd blwyddyn i ysgolion llwyddiannus.
Wythnos 22 Mai	Trefnu taith gweithgaredd natur i'r ysgol fuddugol Cymru, i'w chynnal wedi hanner tymor.

Dyddiad	Gweithgaredd
Derbyn bylbiau a photiau Offer i gyrraedd yr ysgolion erbyn 13 Hydref. Alban: 6 Hydref Cymru: 13 Hydref. Gogledd Iwerddon: 13 Hydref Lloegr: 13 Hydref	Caiff eich pecyn ymchwilio *Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion* ei anfon at eich ysgol erbyn y dyddiad perthnasol ar y chwith. Cadwch y bylbiau mewn **lle oer a sych** cyn eu plannu. Fydd y bylbiau ddim yn cael digon o aer o'u cadw yn y bocs. **Dylai'r pecyn gynnwys:** • 1 bwlb Cennin Pedr i bob disgybl – *Tenby Daffodil* • 1 bwlb saffrwm i bob disgybl – *Whitewell purple* • 1 potyn i bob disgybl • 4 bwlb a 4 potyn sbâr i bob ysgol  Bydd ysgolion sy'n newydd i'r project yn cael thermomedr a glawfesurydd.
Cychwyn arni Ysgolion yr Alban Wythnos 25 Medi. Ysgolion Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon: Wythnos 9 Hydref.	**Cyflwyno'r project i'r disgyblion a pharatoi i blannu:**  • Cyn plannu, bydd angen i ddisgyblion enwi a mabwysiadu eu bylbiau a gwneud labeli ar gyfer eu potiau. Dyma amser da i drafod beth sydd ei angen ar blanhigyn i dyfu, ac i benderfynu ble i osod y bylbiau yn yr **awyr agored** ar dir eich ysgol. Defnyddiwch yr adnoddau isod: **Adnoddau ar-lein:** http://www.amgueddfacymru.ac.uk/bylbiau-gwanwyn/ • Llythyr oddi wrth Athro'r Ardd (PowerPoint) • Mabwysiadu a gofalu am eich bylbiau (PowerPoint) • Labelu'r bylbiau [PDF] • Tystysgrif mabwysiadu [PDF] • Cwestiynau Cyffredin **Profi eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair newydd:** **Bydd pob athro** yn derbyn enw defnyddiwr a chyfrinair newydd drwy e-bost er mwyn anfon data i wefan yr Amgueddfa. Dilynwch y cyfarwyddiadau yn yr e-bost fydd yn cyrraedd erbyn 9 Hydref.

Diwrnod plannu:

Ysgolion Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon: 20 Hydref

Ysgolion yr Alban: 27 Hydref

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Diwrnod Plannu!

Rhaid i bob ysgol blannu eu bylbiau ar y dyddiad hwn er mwyn sicrhau prawf teg.



- Bydd angen i ddisgyblion blannu eu bylbiau a chysylltu'r labeli a baratowyd ganddynt. Os na fedrwch blannu ar y dyddiad hwn, gwnewch hynny cyn gynted â phosibl, gan nodi'r dyddiad. **Bydd angen cael pridd yn barod ar gyfer y gweithgaredd hwn – nid oes angen rhaw**. Trafodwch reolau diogelwch cyn plannu.

Adnoddau ar-lein:
http://www.amgueddfacymru.ac.uk/bylbiau-gwanwyn/

- Plannu eich bylbiau
- Gwnewch lyfryn origami bach eich hun! *Bywyd cudd y bwlb gan Athro'r Ardd.* (Fersiwn lliw) (Fersiwn llenwi'r bylchau) (Sut i wneud)

Eleni, bydd ysgolion Cymru yn cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Diwrnod Plannu Ymddiriedolaeth Edina! Am gyfle i ennill cymrwch lun o'ch dosbarth yn plannu'r bylbiau ai anfon atom.

Gall ysgolion sy'n cymryd rhan ym mhroject estynedig Ymddiriedolaeth Edina anfon eu lluniau i wefan Moodle: http://moodle.edinatrust.org.uk.

Gall ysgolion yng Nghymru anfon eu lluniau i Amgueddfa Genedlaethol Cymru trwy dudalen Twitter Athro'r Ardd (isod), neu gyfeiriad e-bost Scan:
scan@amgueddfacymru.ac.uk

Rhaid i ysgolion Cymru rannu eu ffotograffau ar y diwrnod plannu (20 Hydref). Caiff enillwyr Cymru eu cyhoeddi ar 6 Tachwedd gyda'r gwobrau'n cael eu dosbarthu'n fuan wedyn!

- Anfonwch eich straeon a'ch lluniau i'n blog blodau a dilynwch Athro'r Ardd ar Twitter! **www.twitter.com/Professor_Plant**

Cadw cofnodion tywydd Wythnos: 6 Tachwedd Parhau tan: 29 Mawrth (ag eithrio dyddiau cau ysgolion).	**Pob ysgol yn dechrau cadw cofnodion tywydd:** • Bydd angen i ddisgyblion ddechrau casglu gwybodaeth, gan ddefnyddio offer ac anfon gwybodaeth drwy'r wefan. Bydd angen i athrawon gasglu: 1 glawfesurydd, 1 thermomedr, prennau mesur, pensiliau, siart dywydd a'ch enwau defnyddwyr a chyfrineiriau (yn barod i fewngofnodi i'r wefan). • Os bydd disgyblion yn anfon data yn wythnosol gall ysgolion gymharu cofnodion tywydd, astudio'r map ac adnabod tueddiadau lleol. Anfonwch y canlyniadau yn wythnosol ar brynhawn dydd Gwener os yn bosibl.  • Gall ysgolion hefyd astudio cofnodion a chanfyddiadau'r llynedd. **Adnoddau ar-lein:** http://www.amgueddfacymru.ac.uk/bylbiau-gwanwyn/ • Cadw cyfnodion tywydd [PowerPoint] • Siart tywydd [PDF] • Glawfesurydd a thermomedr • Fy Nghrocws [PDF] • Fy Nghennin Pedr [PDF] • Map a tywydd • Canlyniadau blaenorol
Cadw cofnodion blodau, blogio a Twitter: Ionawr – Mawrth	**O fis Ionawr i fis Mawrth, anogwch y disgyblion i edrych ar y bylbiau yn rheolaidd a chofnodi dyddiad blodeuo a thaldra'r planhigion.** • **Disgyblion yn parhau i gadw cofnodion tywydd fel y tymor blaenorol.** • Anfonwch eich straeon a'ch lluniau i'n blog blodau a dilynwch Athro'r Ardd ar Twitter! www.twitter.com/Professor_Plant 

Cadw cofnodion blodau, blogio a Twitter: Ionawr - Mawrth	• Gwyliwch **ddyddiadur fideo Athro'r Ardd** er mwyn gweld tyfiant y bylbiau llynedd a/neu ddilyn **dyddiadur lluniau Athro'r Ardd** (yn y blog blodau) i gymharu'r tyfiant. • **Mapio.** Anogwch y disgyblion i wylio'r map blodeuo er mwyn gweld ble mae'r blodau yn agor gyntaf, ac astudio'r patrymau tywydd er mwyn ceisio dyfalu pam fod y bylbiau yn agor ynghynt mewn rhai ardaloedd. • **Beth i'w gofnodi a phryd?** Defnyddiwch PowerPoint '**cadw cofnodion blodau**' er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwybod beth i'w gofnodi a phryd. Cyn gynted ag y bo blodyn yn agor, gofynnwch i'r disgybl fewngofnodi a chofnodi'r dyddiad blodeuo. Yn syth wedi i cofnod gael ei derbyn, dylai blodyn ymddangos uwchben eich ysgol ar y **map blodau** a dylai'r dyddiad ymddangos ar y **siart flodau.** Gofynnwch i bob disgybl anfon eu cofnod wrth i'r blodau agor, fel y gall y wefan gyfrifo dyddiad blodeuo cyfartalog eich ysgol. Gellir defnyddio hyn i gymharu tueddiadau. Am ragor o wybodaeth am fewnbynnu data ewch i: http://www.amgueddfacymru.ac.uk/bylbiau-gwanwyn/. • **Tra bo'r bylbiau'n tyfu…** gall fod yn amser da i drafod oblygiadau posibl newid hinsawdd, a rhoi pwysigrwydd yr ymchwiliad yn ei gyd-destun. Gweler **adnoddau cynhesu byd eang**. Gall disgyblion ddysgu 'faint sydd angen rhedeg er mwyn cael ynni i gynnau bỳlb golau' a gwneud addunedau arbed ynni. Gallant hefyd gymryd rhan yn rownd Gwir neu Gau 'Newid Hinsawdd Cymru'. • **Pan fo'r blodau'n agor** gall disgyblion greu diagram o'r planhigyn gan dynnu sylw at strwythur a diben y ddeilen, gwreiddiau, blodyn ac ati. Gweler adnoddau. Gall disgyblion fynd â'r cennin Pedr adre gyda nhw pan fydd wedi blodeuo, gyda chaniatâd yr athro. Gweler: 'Gofal bylbiau – wedi blodeuo'. • **Tystysgrifau.** Bydd **pob** disgybl sy'n anfon ei gofnodion yn derbyn **Tystysgrif Gwyddonydd Gwych** ac ychydig o **eginblanhigion**. Anfonwch bob cofnod tywydd a blodeuo at Athro'r Ardd drwy wefan SCAN erbyn **29 Mawrth 2018.** • Peidiwch â phoeni os nad yw pob bylb wedi blodeuo erbyn 29 Mawrth. Bydd y disgyblion hynny yn derbyn tystysgrifau hefyd, ond gofynnwch iddynt fynd â hwy adref a nodi'r dyddiad blodeuo. Mae angen dyddiad blodeuo cennin Pedr a saffrwm ar gyfer pob disgybl er mwyn i'r system gyfrifo dyddiad blodeuo cyfartalog ar gyfer eich ysgol. • **Caiff pob tystysgrif ei hanfon at yr ysgolion erbyn 21 Mai 2018.** Am ragor o wybodaeth ar sut i anfon data gweler: http://www.amgueddfacymru.ac.uk/bylbiau-gwanwyn/

	Adnoddau ar-lein: http://www.amgueddfacymru.ac.uk/bylbiau-gwanwyn/ • Cadw cofnodion blodau [PowerPoint] • Siart cennin Pedr [PDF] • Siart crocws [PDF] • Blog Blodau • Dyddiadur Fideo Athro'r Ardd • Enwi rhannau o'r planhigyn [PowerPoint] • Enwi rhannau o'r cennin Pedr [PDF] • Newid yn yr hinsawdd: pam ddylwn i boeni? (Trafodaeth 30 munud) [PowerPoint] • Gwir neu gau: newid hinsawdd Cymru [PowerPoint] • Yr argyfwng ynni (dadl 25 mun) [PowerPoint] • Newid hinsawdd – beth sy'n digwydd? [PDF] • Gofal bylbiau – wedi blodeuo [PDF]
Enillwch wobr i'r dosbarth!	**Cadwch gofnodion wythnosol i gael cyfle i ennill gwobr i'r dosbarth!** **Y wobr i ysgolion Cymru fydd Taith Gweithgaredd Natur i'r dosbarth cyfan, yn cynnwys:** Bws am ddim a diwrnod o weithgareddau natur dan arweiniad ar gyfer un dosbarth. Bydd enillydd o dde Cymru yn ymweld â **Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru** neu bydd enillydd o ogledd Cymru yn ymweld ag **Amgueddfa Lechi Cymru**. Mae Ymddiriedolaeth Edina yn trefnu gwobrau ar gyfer ysgolion buddugol yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ewch i www.edinatrust.org.uk. • **I gael cyfle i ennill, cofiwch anfon eich cofnodion tywydd wythnosol i'r wefan erbyn 29 Mawrth**. Byddwn yn cyhoeddi'r enillwyr ar **23 Ebrill.** • Bydd **pob** disgybl sy'n anfon eu cofnodion atom yn derbyn **Tystysgrifau Gwyddonwyr Gwych, pensiliau** ac **eginblanhigion.** • **23 Ebrill: Dyddiad cau ar gyfer gyflwyno cais i barhau flwyddyn nesaf.**

Ymdrin â data, tystysgrifau ac adroddiad terfynol Wythnos: 21 Mai	• **Tystysgrifau ac adroddiad Athro'r Ardd.** Byddwn yn anfon y rhain at bob ysgol erbyn **21 Mai 2018**, i'w cyflwyno i'r disgyblion ac i'r ysgol gyfan. Byddai'n gyfle i'r disgyblion gyflwyno'r project, y canlyniadau a'r prosesau i weddill yr ysgol neu i'r disgyblion fydd yn gwneud y project y flwyddyn ganlynol. **Adnoddau ar-lein:** http://www.amgueddfacymru.ac.uk/bylbiau-gwanwyn/ • Tystysgrifau 2018 • Canfyddiadau diweddaraf • Canlyniadau blaenorol